

## **Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru**

**Adolygu Cynnydd yn  
erbyn Safonau Gofal  
Iechyd Cymru –  
1 Ebrill 2006 – 31  
Mawrth 2007**

**Dyddiad: Hydref 2007**



## Cynnwys

	<b>Rhif y Dudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad a Chyd-destun .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Proses Asesu 2006-07 .....</b>	<b>5</b>
<b>3. Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru .....</b>	<b>9</b>
<b>4. Canfyddiadau</b>	
▪ Profiad y Claf .....	<b>11</b>
▪ Canlyniadau Clinigol .....	<b>24</b>
▪ Rheoli Gofal Iechyd .....	<b>29</b>
▪ Iechyd y Cyhoedd.....	<b>48</b>
<b>5. Y Camau Nesaf.....</b>	<b>53</b>
 <b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 : Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd .....	<b>55</b>
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon.....	<b>56</b>
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr .....	<b>63</b>
Atodiad 4: Rhestr Termau.....	<b>65</b>



## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith yr ymgwymerwyd ag ef gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad 2006-2007 Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru o berfformiad yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

### Y Safonau

1.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn amlinellu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gynorthwyo'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a'i sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3 Yn gyntaf oll, diben y Safonau Gofal Iechyd yw cyflwyno'r gwell lefelau gofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru hawl resymol i'w disgwyl a thrwy hynny darparu sylfaen er mwyn i sefydliadau gofal iechyd ddatblygu a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion a amlinellir yn strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau gofal iechyd<sup>1</sup> yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth fo'r lleoliad.

1.4 Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn amlinellu 32 safon o dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o werthoedd craidd a ddylai fod wrth wraidd comisiynu a chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd, ac y mae pob safon o fewn y maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

---

<sup>1</sup> Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel sefydliadau GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

*Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau cleifion unigol drwy gael eu cynllunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel, ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd ar gyfer cleifion.*

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi:

*Bydd penderfyniadau a gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil a aseswyd yn briodol yn dangos y bydd yn darparu canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau unigol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses darparu gwasanaeth nac yn ystod eu llwybr gofal.*

- Mae'r trydydd maes 'Rheoli Gofal Iechyd' yn nodi'n glir:

*Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, gwella ansawdd a diogelwch cleifion yn rhannau annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.*

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn nodi:

*Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, ac a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.*

## **Sicrhau Cydymffurfiad**

1.5 O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a chyhoeddi datganiad cyhoeddus blynyddol ar eu perfformiad.

1.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiad a'u ffurflenni hunanasesu yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain wrth gydlynu gwaith profi a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad ar sail risg, yn erbyn ystod o ffynonellau data. Amlinellir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu ffurflenni 2006-2007 yn yr adran a ganlyn.

1.7 O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfio â'r safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at Ddatganiadau o Reolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol y sefydliadau.



## 2. Proses Asesu 2006-2007

### Yr Hunanasesiad

2.1 Blwyddyn ddatblygiadol oedd 2006-2007, a gwelwyd proses asesu newydd yn cael ei datblygu a'i phrofi. Rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod y cyfrifoldeb am gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn gadarn ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd ac sy'n cefnogi'r agenda reoli. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd ac yn bwysicach y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2 Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel benodol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau yn gwneud eu gwaith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaid â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiaid â'r safonau yn cael ei sicrhau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr<sup>2</sup>* - sut beth yw profiad y defnyddiwr ac a yw hynny'n gwella?

2.3 Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi'u gosod ar gyfer pob safon ac maent wedi'u datblygu yn offeryn asesu ar y we sy'n caniatáu am gwblhau'r hunanasesiadau ar-lein a llwytho'r dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddir yn erbyn pob cwestiwn. Cefnogir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n darparu arweiniad defnyddiol ar ofynion pob un o'r 32 safon.

2.4 Roedd yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran cyflwyno'r lefel perfformiad uchaf yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu am asesu perfformiad ar y

lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr ar un o'r pum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Rhoddir diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5 Gan ei bod hi'n flwyddyn ddatblygiadol, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gadw at rai amserlenni tynn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno eu hunanasesiad wedi'i gwblhau i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, sef tri mis ar ôl rhyddhau'r offeryn asesu. Cyflwynodd Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru eu hunanasesiad erbyn y dyddiad cau a dymunwn gydnabod yr holl waith, ymdrech ac ymrwymiad a ddangoswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cadw o fewn y dyddiadau cau.

### **Profi a Dilysu**

2.6 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, ac mae hyn wedi cynnwys sawl cam:

- *Cam 1* - Dilysiad bwrdd gwaith o'r hunanasesiad gan dîm o adolygwyr sy'n gydweithwyr ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys gwirio pa un a oedd y cwestiynau sy'n cefnogi pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi a oedd yr ateb yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.

---

<sup>2</sup> Yng nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr a staff.

- *Cam 2* - Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni drwy gydol mis Awst er mwyn cymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb a safoni'r sgorau.
- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau pwysig ar brofiad y claf/defnyddiwr.

## **Yr Ymweliad Safle**

2.7 Roedd yr ymweliad safle yn un cam o'r broses o ddilysu a phrofi hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru ac fel y nodwyd uchod, roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 12 a 13 Medi 2007.

2.8 Ar y diwrnod cyntaf cynhaliwyd grwpiau ffocws staff a chleifion, ac ar yr ail ddiwrnod cynhaliwyd ymweliadau arsylwi â'r adran Damweiniau ac Achosion Brys, yr adran Cleifion Allanol a ward gofal yr henoed yn ysbyty Bronglais. Hefyd, cynhaliwyd archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, hyfforddiant a gwerthuso ar gyfer y staff a oedd ar ddyletswydd yn yr adrannau/wardiau uchod ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar wefan AGIC yn [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk).

## **Uwchgynadleddau Gofal Iechyd**

2.9 Ym mis Awst, cydlynodd a hwylusodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru dri chyfarfod rhanbarthol, sef 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan ddwyn ynghyd sefydliadau adolygu ac archwilio er mwyn rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu at broses gadarnhau asesu'r Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu mwy o wybodaeth ar draws sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrwydd ar y cyd.

### **3. Trosolwg o'r Ymddiriedolaeth**

3.1 Mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru yn darparu gwasanaeth gofal iechyd cymunedol ac aciwt integredig. Mae Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn Aberystwyth yn darparu gwasanaethau aciwt, ac fe'i cefnogir gan ysbytai cymunedol yn Aberaeron, Aberteifi a Thregaron.

3.2 Mae'r brif ardal y darperir gwasanaethau ysbyty a chymunedol yr Ymddiriedolaeth ar ei chyfer yn debyg i ffin bresennol Cyngor Sir Ceredigion, ac mae'n cynnwys poblogaeth o ryw 70,000. Mae ardaloedd o Dde Gwynedd, Gogledd Powys a Gogledd Sir Benfro hefyd yn nalgylch yr Ymddiriedolaeth, gan ddod â'r amcangyfrifiad o gyfanswm y boblogaeth y darperir y gwasanaeth aciwt ar ei chyfer i 120,000. Yn ogystal, ceir nifer fawr o fyfyrwyr yn yr ardal ac mae twristiaeth yn cael effaith sylweddol yn ystod misoedd yr haf.

3.3 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

Damweiniau ac Achosion Brys

Gwasanaethau i Blant

Ysbyty Dydd

Uned Llawfeddygaeth Ddydd

Deieteg

Meddygaeth Gyffredinol

Llawfeddygaeth Gyffredinol

Gynaecoleg

Obstetreg

Therapi Galwedigaethol

Offthalmoleg

Cleifion Allanol

Patholeg

Fferyllfa

Ffisiotherapi

Radioleg

Therapi Lleferydd ac Iaith

Gofal Lliniarol

Gwasanaethau Nyrsio Arbenigol

Nyrsys Ardal

- Ymwelwyr Iechyd
- Nyrsys Ysgol
- Trawma ac Orthopedeg
- Oncoleg
- Haematoleg
- Cardioleg
- Endosgopi
- Uned Asesu Meddygol.

## 4. Canfyddiadau – Gan gynnwys meysydd i'w gwella ac Arfer Da

### 4.1 Profiad y Claf

#### **Safon 1**

*Ceisir barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd ac fe'i hystyrir wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella gwasanaethau gofal iechyd a'u hintegreiddio â gwasanaethau gofal cymdeithasol.*

S1.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S1.2 Dangosodd y Bwrdd fod ganddo ystod o dulliau strategol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r safon hon. Fodd bynnag, dim ond ar ffurf ddrafft y mae dogfennau strategol pwysig fel Strategaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd 2006-2009 a'r Fframwaith Partneriaeth ar gyfer Plant. Nodir bwriad i ddatblygu dulliau rhagweithiol a chydgysylltiedig ar gyfer Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd. Fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth o ddatblygu cynllunio ar gyfer gweithredu mewn ffordd gydgysylltiedig a chyson ar draws y sefydliad. Mae angen tystiolaeth o adolygu a gwella parhaus cyn y gallem gytuno ar lefel o Ymarfer. Oherwydd y diffyg tystiolaeth o adolygu a gwella parhaus, rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S1.3 Defnyddir cynrychiolaeth ar y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) fel y brif ffordd o sicrhau mewnbwn a chynrychiolaeth cleifion. Enghreifftiau cyfyngedig yn unig a gawsom yn y trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth i ddangos bod defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â dylunio, cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Yn ogystal, roedd diffyg cydlynoldeb yn ystod yr enghreifftiau gweithredol a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth o ran profiad cyffredinol cleifion, ac mae'r dystiolaeth o sut y cyflawnir y safon ar lefel ward, yn arbennig ar gyfer gwasanaethau nyrsio, yn wan. Fodd bynnag, ar y cyfan rydym yn cytuno â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S1.4 Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth enghreifftiau o Arolygon Bodlonrwydd Cleifion a Holiaduron Cleifion yn ogystal ag enghreifftiau o sut y mae rhai gwasanaethau'n defnyddio'r dulliau adborth hyn. Fodd bynnag, dangosodd trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth a staff ynghyd ag ymweliadau arsylwi, na cheisir adborth yn eang ac nad ystyrir bod cwynion yn cael eu hannog yn weithredol, sy'n dangos nad oes dull cyson wedi ei sefydlu eto ar gyfer bodloni'r safon hon. Felly, rydym yn asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, gan nad oes llawer o dystiolaeth o ddull cynhwysfawr o gynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

### **Safon 2**

*Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:*

- a. yn adlewyrchu profiadau, safbwyntiau a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac*
- ch. yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn gyfartal*

S2.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S2.2 Mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan ei hymrwymiad ar lefel y Bwrdd i waith amlasiantaethol i ddarparu'r strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a strategaethau eraill sy'n datblygu er mwyn bodloni'r safon ac mae'n pwysleisio ei defnydd o'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) fel dull o gynrychioli cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio dull sy'n canolbwyntio'n allanol ar gyfer cysoni gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd a gofynion sydd heb eu bodloni, ac mae'n datgan ei bod wrthi'n sefydlu systemau ar gyfer sicrhau mynediad cyfartal. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn pwysleisio swyddogaeth BILI Ceredigion wrth sicrhau bod gofal iechyd priodol ar gael. Ceir hefyd ddisgrifiad o'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau tegwch o ran y gwasanaethau y mae wedi ei chomisiynu i'w darparu. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol gan nad yw'r ymateb yn rhoi tystiolaeth gyson o ddulliau gwelliant parhaus.

S2.3 Mae grwpiau gwasanaethau gweithredol yn gweithredu ac yn adolygu cynllun gweithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn rheolaidd, er nad oedd llawer o dystiolaeth o hyn ar gael, ac nid oedd yn amlwg chwaith o gyfarfodydd y grwp ffocws staff, fod y staff ar lefel leol yn ymwybodol iawn o'r strategaeth ac yn cyfrannu at y broses. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol oherwydd nid yw eto wedi sefydlu systemau gweithredol.

S2.4 Prin iawn yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth o sut y mae'n hysbysu cleifion am arfer gorau, a chadarnhawyd hyn yn glir gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn y grwpiau ffocws nad oedd ganddynt lawer o brofiad o dderbyn gwybodaeth o'r fath. Mae gwendidau'n bodoli o ran ymwybyddiaeth staff a defnyddwyr gwasanaeth o ddatblygu, gweithredu a'r wybodaeth sydd ar gael o ran arfer gorau a safonau cenedlaethol, ac felly rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 3**

*Mae cleifion sydd ag anghenion iechyd brys yn cael gofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.*

S3.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S3.2 Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau rheolaidd gan Gyfarwyddiaethau ynglyn â monitro'r Cerdyn Sgorio Cytbwys. Darparwyd rhai enghreifftiau o fentrau sy'n gysylltiedig â chyrraedd targedau mynediad brys, er nad oedd llawer o dystiolaeth o sut y caiff y rhain eu cynnwys mewn cynllun gweithredu cyffredinol ar gyfer darparu gofal brys yn brydlon. Rydym yn cytuno â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S3.3 Cynyddir ymwybyddiaeth staff o faterion iechyd brys yn sgîl rhaeadru gwybodaeth trwy strwythurau rheoli, cyfarfodydd staff a'r Fewnrwyd. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o staff wrthym ei bod yn anodd i rai ohonynt gael cyfle i

ddefnyddio'r Fewnrwyd. Rydym yn cytuno â'r Ymddiriedolaeth eu bod yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S3.4 Nid yw'r dull cyffredinol o hysbysu defnyddwyr gwasanaeth ynghylch perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol yn gynhwysfawr, gan ddibynnu ar y ffaith y byddant yn cael gwybodaeth trwy wefannau a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Roedd yn glir o'r grwp ffocws cleifion nad oedd y rheiny a oedd yn bresennol yn ymwybodol o dargedau cenedlaethol. Felly, rydym yn asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

#### **Safon 4**

*Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:*

- a. hyrwyddo lles cleifion a staff;*
- b. parchu anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd gwahanol gleifion;*
- c. ystyried diogelwch cleifion, defnyddwyr a staff; a*
- ch. darparu amgylchedd saf a diogel sy'n amddiffyn cleifion, staff, ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr

S4.2 Mae Hyrwyddwr y Bwrdd wedi ei nodi i gefnogi agweddau ar y safon hon ac mae cynllun gweithredu priodol wedi'i sefydlu. Mae gan y Bwrdd nifer o bolisïau a chynlluniau priodol wedi'u sefydlu sy'n darparu fframwaith ar gyfer cyflawni agweddau amrywiol ar y safon hon megis Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chydraddoldeb Rhywiol, Iechyd a Diogelwch, a Diogelwch Rhag Tân. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth a ddarparwyd yng nghyflwyniad yr Ymddiriedolaeth ynghylch sut y mae'r Bwrdd yn cael ei hysbysu'n barhaus o brofiad amgylcheddol ehangach y cleifion o ran materion megis Preifatrwydd ac Urddas. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S4.3 Mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan bod cynrychiolaeth staff yn cael ei chynnwys ym mhob prosiect datblygu neu adnewyddu, er na ddarparwyd llawer o dystiolaeth i gefnogi hyn yn hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth. Mae llawer o systemau wedi'u sefydlu ar gyfer agweddau amrywiol ar y safon hon y gall y staff eu

defnyddio i godi materion a phryderon ynghylch yr amgylchedd gofal. Fodd bynnag, amlygodd y grwpiau ffocws staff a'r ymweliadau arsylwi bryderon ynglyn â pha mor gyflym yr eir i'r afael â materion cynnal a chadw, glanweithdra wardiau, amgylcheddau anniben oherwydd diffyg lle storio a phrinder cyfleusterau i ddarparu digon o breifatrwydd ac urddas i ddefnyddwyr gwasanaeth. Codwyd materion megis ystafelloedd ymolchi a thai bach a rennir gan y ddau ryw, a llenni nad oeddent yn ffitio'n iawn. Mae'r systemau sydd wedi'u sefydlu gan yr Ymddiriedolaeth yn ein harwain i gytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S4.4 Nid oedd profiad defnyddwyr gwasanaeth yn ffafriol o ran y safon hon. Roedd y cleifion o'r farn bod safon cynnal a chadw a glanweithdra yn wael gyda chanfyddiad y gallai iechyd a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth unigol fod mewn perygl. Dywedodd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth wrthym eu bod yn ystyried bod y diffyg preifatrwydd ar rai wardiau yn digwydd oherwydd yr amodau cyfyng ac anniben. Er ein bod yn nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno Tasglu i wella safonau glanweithdra fel ymateb i bryderon o'r fath, roedd angen gwneud mwy o waith ar adeg ein hadolygiad. Felly, rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 5**

*Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau sydd*

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw i safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn lleihau'r perygl o ddal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i gleifion, staff ac ymwelwyr, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac sydd*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o hylendid ac yn adlewyrchu mentrau arfer gorau.*

S5.1 Yn ôl ei hunanasesiad daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymateb** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S5.2 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddwr ar lefel y Bwrdd.

- Strwythur rheoli priodol.
- Penodi a hyfforddi staff sydd â chymwysterau priodol.
- Archwiliadau ac adroddiadau ynglyn â pherfformiad, a gyflwynir i'r Bwrdd a'r timau rheoli.
- Nifer o bwyllgorau, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

S5.3 Mae'r Bwrdd wedi bod yn ceisio cymorth allanol gan BILI Ceredigion am arian i ddatblygu ei Strategaeth Lanbau ers mis Ionawr 2005. Nid yw'n glir pa welliannau a gyflawnwyd yn absenoldeb unrhyw gyllid cytunedig newydd. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S5.4 Rydym hefyd yn cytuno gydag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, gan fod tystiolaeth o weithredu gweithdrefnau yn ymarferol ar draws yr Ymddiriedolaeth.

S5.5 Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn dilyn ein hymweliadau arsylwi yn peri pryder i ni yn ynglyn â materion glanweithdra, ac yn arbennig y diffyg adnoddau glanhau i ymateb i ofynion glanhau nad ydynt yn rhai arferol mewn rhai mannau ar wardiau cleifion yn Ysbyty Bronglais.

S5.6 Mae'r diffyg lle storio mewn sawl man yn yr Ymddiriedolaeth yn arwain at annibendod mewn mannau cleifion a storio deunyddiau ac offer yn amhriodol mewn swyddfeydd, coridorau ac ystafelloedd ymolchi. Felly, rydym yn ystyried bod asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr yn realistig. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu ei Strategaeth Lanbau fel mater o frys.

### **Safon 6**

*Mae sefydliadau gofal iechyd, gan gydnabod gwahanol anghenion ieithyddol, cyfathrebu, corfforol a diwylliannol:*

- a. *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. *yn rhoi gwybodaeth amserol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr, y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu derbyn yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac*
- c. *yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar opsiynau sy'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2 Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniad Gweithredol/Clinigol. Cyflwynodd dystiolaeth o ystod o gynlluniau strategol gyda'r nod o fynd i'r afael â darparu gwybodaeth am y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, darparwyd enghreifftiau braidd yn gul o sut y mae'n mynd i'r afael â'r agenda amrywiaeth o ran triniaeth glinigol, gwybodaeth am ofal a dewisiadau triniaeth, ac nid yw wedi dangos sut y mae'r Bwrdd yn dod â'r agenda hon at ei gilydd ac yn ei monitro er mwyn cyflawni cylch o welliant parhaus.

S6.3 Nid ydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn Datblygu yn gyffredinol ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ac rydym yn ystyried mai **Ymateb** yn unig ydyw. Yn ystod ein cyfarfodydd gyda staff a chleifion, dywedodd llawer o gleifion nad oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth ynglyn â dewisiadau gwasanaeth, gofal a thriniaeth. Hefyd, nid oedd llawer ohonynt yn cofio gweld unrhyw gyhoeddusrwydd am y broses gwyno. Cadarnhawyd hyn yn ystod ein hymweliadau arsylwi. Nid oedd gwybodaeth ynghylch cwyno neu roi adborth, diben gwneud hynny, nac esboniadau ynghylch sut y gallai helpu'r Ymddiriedolaeth i wella, yn amlwg mewn llawer o'r manau y gwnaethom ymweld â hwy.

### **Safon 7**

*Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rheiny â chyflyrau hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain a rhoddir cyfleoedd ac adnoddau iddynt i ddatblygu eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain.*

S7.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2 Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol. Rhoddwyd tystiolaeth o gynllunio strategol corfforaethol priodol, er enghraifft o ran darparu caniatâd a gwybodaeth ysgrifenedig. Mae llwybrau gofal integredig ar gyfer cleifion yn cael eu datblygu a nododd yr Ymddiriedolaeth fod datblygu'r rhain yn fodd o gyflawni'r safon hon.

S7.3 Ychydig o wybodaeth a ddarparwyd ynghylch sut y mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu cymhwyso a'u monitro ar draws y sefydliad. Mae'r un peth yn wir ar y lefelau gweithredol lle y byddai tystiolaeth o fwy o gysondeb o ran gweithredu, adolygu a gwelliant parhaus yn gwella aeddfedrwydd yr Ymddiriedolaeth.

S7.4 Cawsom ymateb cymysg iawn gan grwpiau ffocws cleifion ynglyn â bod yn rhan o ddewisiadau triniaeth a hunanofal a gynlluniwyd. Ar y cyfan, roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn dderbynwyr goddefol o'r hyn a oedd yn cael ei ddarparu, a bod hunan-ofal yn cael ei ymarfer pan fo angen rhyddhau gwelyau'n gyflym yn hytrach nag fel bwriad a gynlluniwyd. Roedd eithriadau yn bodoli, er enghraifft, o ran gofal Diabetes, roedd rhai o'r cleifion y siaradwyd â hwy yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn cyfrannu at hunanreolaeth a gynlluniwyd. Roedd llawer o gleifion yn teimlo bod y wybodaeth a ddarperir gan glinigwyr unigol mewn ymgynghoriadau un i un yn eithaf clir ac agored.

S7.5 Ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth gyson ei bod yn cael adborth gan gleifion ynglyn â'u profiadau. Oherwydd yr anghysondeb ar y lefel hon, rydym yn asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 8**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. *bod staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofawr ydychydig urddas a pharch;*
- b. *bod y staff eu hunain yn cael eu trin ydychydig urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. *y ceir caniatâd yn briodol ar gyfer cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac ar gyfer defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion;*  
a
- ch. *bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu i'r gwrthwyneb.*

S8.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S8.2 Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth o gynllunio strategol ar draws ystod o feysydd i gefnogi cyflawni'r Safon hon. Er enghraifft, ceir tystiolaeth o gynlluniau i weithredu Hanfodion Gofal. Mae agweddau eraill fel cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu trin, ynghyd â'r maes pwysig o ganiatâd. Yn yr un modd mae ystod o strategaethau a pholisïau wedi'u sefydlu i gefnogi trin staff yn briodol. Mae systemau ar gyfer sicrhau cyfrinachedd wedi'u sefydlu. Byddai'r aeddfedrwydd yn cael ei gryfhau ar y lefel Gorfforaethol pe byddai mwy o dystiolaeth o fonitro, meincnodi, adolygu a chynllunio ar gyfer gweithredu gan y Bwrdd er mwyn mynd i'r afael â diffygion, ac felly rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S8.3 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth gadarn o weithredu ystod o raglenni hyfforddiant ar gyfer staff yn ymarferol, gyda'r nod o fynd i'r afael ag urddas a pharch a chasglu adborth gan gleifion ynglyn â'r ffordd y cânt eu trin. Mae'r dulliau ar gyfer sicrhau caniatâd, cyfrinachedd a phreifatrwydd gwybodaeth yn gynhwysfawr, ond ni ddarparwyd tystiolaeth o feincnodi a gwelliant parhaus. Felly, rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S8.4. Fel yr amlygwyd yn gynharach, mynegodd y defnyddwyr gwasanaeth bryderon ynghylch materion preifatrwydd ac urddas, er enghraifft, gorfod defnyddio ystafelloedd ymolchi rhyw cymysg. Ond roeddent yn cytuno bod y staff yn gwneud eu gorau glas i gynnal preifatrwydd ac urddas o ran y gofal a ddarperir ganddynt.

S8.5. Roedd tystiolaeth dda fod y staff yn cael eu trin yn briodol ac ni fynegodd y staff na'r cleifion unrhyw bryderon ynghylch materion caniatâd. Nid oedd tystiolaeth dda o gyfrinachedd gwybodaeth am gleifion ac nid oes prosesau archwilio cynhwysfawr wedi'u sefydlu. Yn ogystal, dywedodd y cleifion wrthym am achosion pryd y trafodwyd gwybodaeth gyfrinachol amdanynt yn gyhoeddus, yn enwedig gan staff Meddygol, ac roeddent yn teimlo, ar y cyfan, nad yw'r cyfleusterau yn hybu cyfrinachedd. Felly, er ein bod yn cytuno ar hyn o bryd ag aeddfedrwydd cyffredinol

o **Ddatblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, mae angen mynd i'r afael â'r problemau ynglyn â chyfrinachedd.

### **Safon 9**

*Lle y darperir bwyd, bydd systemau wedi'u sefydlu i sicrhau:*

- a. *bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwyd sydd wedi'i baratoi'n ddiogel ac sy'n darparu diet cytbwys; a*
- b. *bod gofynion maethol, personol, diwylliannol a chlinigol unigol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni o ran diet, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt wrth fwyta a bod bwyd ar gael iddynt 24 awr y dydd.*

S9.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2 Mae dulliau sicrwydd y Bwrdd sy'n gysylltiedig â sicrhau bod bwyd ar gael 24 awr y dydd, dewis o fwyd a diet cytbwys yn wan. Nid oedd rhai agweddau, fel sicrhau bod ystod amrywiol o ddewisiadau bwyd ar gael, yn derbyn sylw priodol yn strategol. Fodd bynnag, mae'n amlwg y gwneir ymdrech strategol i ymdrin â'r mater pwysig o gynorthwyo wrth fwyta, ac felly gallwn gytuno bod yr Ymddiriedolaeth, ar y cyfan, yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, ond mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r diffygion uchod.

S9.3. Ceir tystiolaeth o gymhwyso systemau'r Ymddiriedolaeth yn ymarferol ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae'r Ymddiriedolaeth ei hun wedi nodi bod angen gwella hyfforddiant ar gyfer staff nad ydynt yn staff arlwygo, a chanfuom sawl enghraifft o staff nyrsio'n gorfod paratoi/darparu bwyd y tu allan i oriau heb unrhyw dystiolaeth eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer hyn, ac felly rydym yn cytuno bod angen gwelliant. Byddai mwy o dystiolaeth o archwilio, er mwyn rhoi sicrwydd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth bod asesiadau maeth priodol yn cael eu cynnal, a bod y dulliau strategol ar gyfer cynorthwyo cleifion wrth fwyta yn gweithio, yn gwella'r aeddfedrwydd. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn dal i **Ddatblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S9.4. Rhoddodd y cleifion y siaradwyd â hwy sylwadau ar y diffyg dewis, bod y bylchau rhwng amserau bwyd yn amhriodol, a diffyg bwyd a diodydd poeth am

gyfnodau hir gyda'r nos ac yn ystod y nos. Nodwyd hefyd bod maint y prydau'n rhy fach, a bod bwyd yn cael ei adael gan gleifion y mae angen cymorth arnynt. Roedd mater amser bwyd wedi ei ddiogelu yn destun trafodaeth hefyd, ac yn gyffredinol ymddengys nad yw hyn wedi ei weithredu na'i hadolygu gyda chyfranogiad y cleifion. Nododd rhai aelodau o'r grwp ffocws fod hyn yn achosi trafferth i berthnasau a oedd yn ymweld o bell. Yn sgîl y sylwadau a dderbyniwyd a'n harsylwadau, rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 10**

*Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau na wahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl sy'n derbyn gofal iechyd ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd neu dueddfryd rhywiol.*

S10.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S10.2 Er gwaethaf tystiolaeth gadarn o gynlluniau strategol a monitro gan y Bwrdd dros ystod eang o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, rydym yn ystyried nad oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o dystiolaeth eto o welliant parhaus o ran materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac felly rydym yn ystyried ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S10.3 Er bod agenda hyfforddi wedi'i sefydlu, ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth o weithredu a chanlyniadau, ac felly rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S10.4 Rydym yn cytuno â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## 4.2. Canlyniadau Clinigol

### Safon 11

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol yn ôl arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- b. y caiff gofal a thriniaethau clinigol eu cyflawni o dan oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth glinigol briodol;
- c. bod clinigwyr yn diweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith clinigol yn barhaus, gan gynnwys adolygiadau gan gydweithwyr;  
a
- ch. bod clinigwyr yn cymryd rhan mewn archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o wasanaethau clinigol.

S11.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2 Mae gan yr Ymddiriedolaeth y strwythurau a'r atebolrwydd angenrheidiol wedi'u sefydlu i roi sicrwydd i'r Bwrdd o ran darparu triniaeth glinigol a gofal priodol. Darparodd enghrefftiau hefyd o fonitro'r safon hon trwy bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Clinigol.

S11.3 Nid yw'r dull strategol ar gyfer goruchwyliaeth glinigol mor gadarn, gydag ychydig dystiolaeth o sicrwydd cynhwysfawr ar draws pob gradd glinigol a grwp staff. Ceir disgrifiad a thystiolaeth o'r dull strategol ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth (FfSG), ond nid oes tystiolaeth o broses hyfforddiant a datblygiad drosfwaol sy'n cael ei monitro gan y Bwrdd.

S11.4 Yn yr un modd, ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ceir rhywfaint o dystiolaeth o'r ffordd y mae strategaethau ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol yn cael eu datblygu, ond llai o dystiolaeth o gydlynu a natur gynhwysfawr dulliau goruchwyllo a hyfforddi. Ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, rydym felly'n cytuno bod **Datblygu** yn aeddfedrwydd priodol, ond bod angen i'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â mater goruchwyliaeth glinigol.

S11.5 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ceir cydnabyddiaeth y byddai archwilio gwell a rhannu gwybodaeth am effeithiolrwydd clinigol yn fuddiol. Rhoddwyd enghrefftiau o

grwpiau staff penodol yn cael mentora a goruchwyliaeth glinigol, ond nid oes unrhyw arwydd bod hyn yn gynhwysfawr ac ar draws y sefydliad, ac felly rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 12**

*Bydd sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:*

- a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar arfer gorau a chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y diffiniwyd mewn Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, cynlluniau cenedlaethol a chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar ddarparu gwasanaethau;*
- c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol cleifion; ac*
- ch. yn integredig er mwyn darparu gwasanaeth di-dor ar draws yr holl sefydliadau y mae angen iddynt fod yn gysylltiedig, gan gynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol.*

S12.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2 Mae gan y Bwrdd strwythurau ac atebolrwydd priodol wedi'u sefydlu i gyflwyno ei ddull strategol o fodloni anghenion cleifion a cheir cynllun gwella i wella'r broses hon. Nid oes llawer o dystiolaeth o waith partneriaeth clinigol, fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol a datblygu llwybrau integredig, ac nid oes llawer o gysylltiad â gofal Sylfaenol er mwyn darparu profiad clinigol cyflawn i'r cyhoedd. Bydd angen sefydlu hyn, fodd bynnag rydym yn cytuno gydag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S12.3 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ceir ystod o enghreifftiau o sut y mae gweithredu dulliau'r Bwrdd ar gyfer Hanfodion Gofal yn datblygu. Fodd bynnag, nid oes llawer o enghreifftiau o sut y caiff y rhain eu gwerthuso. Ychydig iawn o enghreifftiau sydd o Lwybrau Gofal Integredig ac nid yw'r cysylltiad rhwng gofal Aciwt a Sylfaenol yn cael ei drin. Mae angen gwaith i gynnal aeddfedrwydd ar y lefel **Ddatblygu** hon.

S12.4 Ni roddodd y cleifion/defnyddwyr gwasanaeth y siaradwyd â hwy lawer o dystiolaeth fod dulliau cwyno neu adborth wedi eu defnyddio, ac felly er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth ddisgrifiadol o'r hyn y mae wedi ei wneud ynglyn â chael adborth gan gleifion, rydym yn ystyried bod aeddfedrwydd o **Ymateb** yn briodol.

### **Safon 13**

*Bydd gan sefydliadau gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau wedi'u sefydlu i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith rheoli ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.*

S13.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S13.2 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Ymchwil a Datblygu (YaD) sydd yn is-bwyllgor o'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae'r Pwyllgor YaD yn gyfrifol am lawer o benderfyniadau strategol ynglyn ag YaD. Mae Panel Adolygu Mewnol yr Ymddiriedolaeth yn cynnal adolygiadau o apeliadau ariannu. Mae swyddfa YaD yr Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg gan y Swyddog Ymchwil, a'r swyddog hwn yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud ag YaD ac mae'n rhoi cymorth ynglyn â cheisiadau ymchwil. Hysbysebir swyddogaeth y swyddfa YaD fel a ganlyn:

- Hysbysiadau electronig.
- Hysbysfwrdd YaD.
- Cyfnod Sefydlu Meddygon Iau.
- Cyswllt trwy rwydwaith o arweinwyr a hyfforddiant YaD.
- Erthyglau yng nghylchlythyr yr Ymddiriedolaeth a'r cylchlythyr Treialon Clinigol.
- Digwyddiadau I amlygu gweithgarwch YaD.

S13.3. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar bob lefel o'r Safon hon. Nid oedd yn glir pa welliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran

rheoli ymchwil sydd wedi effeithio ar brofiad cleifion, felly ni allem gytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth o aeddfedrwydd o Ymarfer ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### 4.3 Rheoli Gofal Iechyd

#### **Safon 14**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn cydymffurfio â deddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arfer gorau wrth asesu a rheoli risgiau.*

S14.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2 Mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio dull corfforaethol sy'n cynnwys cyfeiriad strategol, atebolrwydd ar lefel y Bwrdd, a strwythurau sy'n briodol ar gyfer darparu sicrwydd i'r Bwrdd. Nodir camau i gefnogi gwelliant parhaus yn y gofrestr risgiau, ond nid yw'r cynlluniau a'r atebolrwydd cysylltiedig ar gyfer cyflawni hyn mor gadarn. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S14.3 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio diwylliant cadarn o hysbysu am ddigwyddiadau niweidiol ar lefel rheolwyr ac atgyfnerthwyd hyn yn ystod ein hymweliad arsylwi. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi disgrifio a rhoi tystiolaeth ddigonol ynglyn â'i dulliau adrodd, nid yw'n rhoi cymaint o dystiolaeth ynghylch sut y cyflawnir arfer gorau o ran rheoli risgiau ar lefel gofal cleifion, ac enghreifftiau cyfyngedig yn unig a roddwyd o gymhwysu ymarferol. Mae adroddiadau Cronfa Risg Cymru yn nodi'r angen am fwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth ac mae'n rhaid i Gynllun Gwella'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â hyn. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ar hyn o bryd.

S14.4 Mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn amlygu ei dibyniaeth ar gyfranogiad y CIC i weithredu fel dirprwy ar gyfer cleifion/defnyddwyr gwasanaeth, ac ni roddwyd unrhyw dystiolaeth fod dulliau fel grwpiau defnyddwyr/cleifion arbenigol yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar wella ansawdd. Rydym yn ystyried nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi dangos bod defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o ddatblygu'r

Rhaglen Gwella Ansawdd. Rydym felly'n asesu ei bod yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 15**

*Mae sefydliadau gofal iechyd, gan gydnabod gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:*

- a. yn gallu darparu adborth am eu profiadau ac ansawdd gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd y bydd eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r gweithdrefnau cwyno;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd y bydd y sefydliadau yn gweithredu ynghylch unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaethau.*

S15.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol, yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2 Er bod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu ynghyd â llawer o'r strwythurau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdrin â chwynion ffurfiol, nid yw wedi darparu tystiolaeth i ddangos sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ac yn hybu gwelliant parhaus. Nid oes llawer o dystiolaeth yn ymateb yr Ymddiriedolaeth o ddefnyddio dulliau eraill ar gyfer cael adborth gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol oherwydd y dulliau cyfyngedig a nodwyd yn hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth.

S15.3 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, roedd y staff a siaradodd â ni yn cytuno ar y cyfan eu bod yn gallu darparu siaradwyr Cymraeg yn ôl y galw. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth yn Uned Mân Anafiadau Aberteifi er enghraifft, o'r ffaith bod Llinell Iaith ar gael. Nid oes unrhyw dystiolaeth o fodloni anghenion cyfathrebu eraill, fel darparu iaith arwyddion ar gyfer pobl â nam ar eu clyw. Rydym felly'n cytuno â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S15.4 Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Gwyno yn nodi'r amserlenni ar gyfer ymdrin â chwynion a hefyd yn nodi sut y caiff y rhain eu monitro. Nid oedd profiadau'r

defnyddwyr o ran sylwadau a chwynion ynglyn â'u profiadau yn gadarnhaol. Nid oedd llawer o'r unigolion a siaradodd â ni wedi cael unrhyw adborth na gwybodaeth ynglyn â'r materion a godwyd a'r camau a gymerwyd er gwell. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 16**

*Mae gan sefydliadau gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu:*

- c. i nodi pob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y dylid adrodd amdanynt, a dysgu ohonynt;*
- c. i adrodd digwyddiadau i System Adrodd a Dysgu Genedlaethol yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a sefydliadau eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. i ddangos eu bod yn gwella eu harfer ar sail profiadau lleol a chenedlaethol a rennir a gwybodaeth sy'n deillio o ddadansoddi digwyddiadau; ac*
- ch. I sicrhau y gweithredir ynghylch hysbysiadau a rhybuddion diogelwch cleifion, a negeseuon eraill sy'n ymwneud â diogelwch, o fewn y terfynau amser gofynnol.*

S16.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2 Rhoddir sicrwydd i'r Bwrdd ynglyn â digwyddiadau diogelwch trwy'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o sicrwydd i'r Bwrdd o ran hysbysu ynghylch diogelwch a chydymffurfio â hysbysiadau a rhybuddion. Rydym yn cytuno â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, er y bydd cynllun gwella cadarn yn angenrheidiol i gynnal hyn.

S16.3 Darperir hyfforddiant hysbysu ynghylch digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion fel rhan o'r broses sefydlu a thrwy raglenni hyfforddi statudol, ond ni roddodd yr Ymddiriedolaeth lawer o dystiolaeth fod y rhain wedi'u sefydlu. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y siaradwyd â hwy eu bod wedi cael hyfforddiant. O ran adborth i'r staff yn dilyn digwyddiadau, mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn datgan bod yr holl Gyfarwyddiaethau yn trafod digwyddiadau o bwys, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o sut y rhoddir gwybod i'r staff.

S16.4 Nid yw ymateb yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio unrhyw fath o ddull rhagweithiol a systematig ar gyfer darparu gwybodaeth i gleifion. Felly, rydym yn asesu bod yr

Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

### **Safon 17**

*Bydd sefydliadau gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â sefydliadau eraill.*

S17.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Corfforaethol a Gweithredol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S17.2 Mae polisiau a phrosesau perthnasol wedi'u sefydlu ac mae'r holl bolisiau newydd sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant yn cael eu lledaenu trwy Fforwm Amddiffyn Plant yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio a nyrs benodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn cynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar amryw grwpiau aml-asiantaeth. Er bod tystiolaeth o archwiliadau strategol ynglyn ag Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), ni roddwyd unrhyw dystiolaeth fod y Bwrdd yn derbyn sicrwydd bod polisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu'n gadarn ar draws holl wasanaethau'r Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, rydym yn nodi mai strategaeth dros dro yn unig yw strategaeth POVA yr Ymddiriedolaeth. Mae hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 1 a 2 yn orfodol i holl aelodau staff yr Ymddiriedolaeth a darperir hyfforddiant diweddarau sgiliau bob 3 blynedd. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar gynnwys hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaenol a Lefel 1 ar gyfer POVA, fe'i cyflwynwyd hyd yma mewn un ysbyty cymunedol ac i nifer fach o staff mewn gofal eilaidd a chymunedol yn unig.

S17.3 Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ymwybodol o faterion yn ymwneud ag oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw'r Ymddiriedolaeth yn cynnal archwiliadau POVA. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar bob un o'r 3 lefel ar gyfer y Safon hon.

### **Safon 18**

*Mae sefydliadau gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb hwnnw lle y bo'n ofynnol.*

S18.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2 Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ymateb cynhwysfawr a thystiolaeth ategol i gadarnhau ei hunanasesiad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol. Mae'r systemau a'r prosesau a ddisgrifiwyd ar gyfer Sefyllfaoedd Digwyddiadau Mawr ac Achosion o Heintiau yn gadarn a cheir dystiolaeth fod y Bwrdd yn monitro ac yn adolygu cynllun gwella parhaus.

S18.3 Cafwyd dystiolaeth o weithgarwch a gynlluniwyd ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol i brofi cadernid Cynllun Digwyddiadau yr Ymddiriedolaeth, ac mae systemau ar gyfer darparu adborth a gwersi a ddysgwyd wedi'u sefydlu. Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ceir llai o dystiolaeth gynhwysfawr i gefnogi'r aeddfedrwydd. Fodd bynnag, mae cynllun gwella parhaus wedi'i sefydlu. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

### **Safon 19**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. eu bod yn lleihau'r holl beryglon sy'n gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiau meddygol cymaint â phosibl;*
- b. bod yr holl ddyfeisiau meddygol y gellir eu haildefnyddio yn cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â chyfleusterau a phrosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch a diogeled meddyginiaethau yn cael eu rheoli; a*
- ch. bod y gwaith o atal, gwahanu, trafod, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli er mwyn lleihau'r peryglon i iechyd a diogelwch staff, cleifion, y cyhoedd a'r amgylchedd cymaint â phosibl.*

S19.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2 Mae strwythurau a phrosesau cynhwysfawr wedi'u sefydlu ar gyfer caffael dyfeisiau meddygol, ynghyd â systemau sicrwydd. Darparwyd dystiolaeth o brosesau ymwybyddiaeth staff, datblygu cymhwysedd a sicrwydd gyda chynllun gwella cadarn

sy'n dangos gwelliant parhaus. Mae prosesau diheintio yn cynnwys dulliau archwilio a sicrwydd cadarn. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn cynnwys llawer o enghreifftiau o ddatblygu cynlluniau gweithredu yn dilyn archwiliadau, gyda monitro clir ar lefel y Bwrdd. Mae fframwaith atebolrwydd priodol a chadarn ar gael ar gyfer rheoli meddyginiaethau, ond mae diffyg tystiolaeth o gynllunio strategol a chysylltiad gweithredol a arweinir gan y Bwrdd rhwng rheoli meddyginiaethau a'r agenda Llywodraethu Clinigol ehangach. Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, prin yw'r enghreifftiau a roddwyd o weithgarwch lleol ar draws grwpiau staff a chyda chleifion. Mae angen mynd i'r afael â hyn trwy gynllun gwella, a ddylai ganolbwyntio'n ehangach ar ffyrdd o gyflawni'r safon hon. O ran Rheoli Gwastraff, caiff safonau eu sicrhau trwy linellau atebolrwydd hyd at lefel y Bwrdd, ac mae prosesau gweithredol yn gadarn ac mae profiad y defnyddiwr yn rhesymol.

S19.3. Rydym yn cytuno ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

### **Safon 20**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a bodlonrwydd staff yn barhaus, gan ddefnyddio arfer gorau wrth reoli adnoddau dynol.*

S20.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, yn **Ymarfer** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S20.2 Darparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth o gyfeiriad strategol. Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi datblygu cynllun gweithredu i gefnogi ac ategu Strategaeth Adnoddau Dynol Cymru ac mae Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yr Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiadau cynnydd i'r Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn gyd-aelodau o'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi ennill y dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl. Oherwydd yr ymatebion cul a roddwyd i'r cwestiynau ar lefel Profiad y Defnyddiwr, rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefelau

Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ond yn **Ymateb** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 21**

*Mae sefydliadau gofal iechyd:*

- a. *yn cynnal yr holl archwiliadau gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff sydd â chymwysterau proffesiynol sy'n gyflogedig neu ar gontract, wedi'u cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b. *yn mynnu bod yr holl staff proffesiynol cyflogedig yn dilyn eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol cyhoeddedig; ac*
- c. *yn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol lle y bo hynny'n briodol.*

S21.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S21.2 Ar y lefel Gorfforaethol, ceir tystiolaeth fod polisïau a strwythurau wedi'u sefydlu i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod gan ei staff y cofrestrriad/cymwysterau priodol, ond ni roddwyd digon o dystiolaeth fod hyn yn digwydd mewn gwirionedd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn achrediad Tic Dwbl gan y Gwasanaeth Cyflogaeth o ganlyniad i'w hymrwymiad i gyflogi gweithwyr anabl. Cyflwynir Adroddiadau Gwybodaeth am y Gweithlu i'r Fforwm Tegwch a Hawliau Dynol, y Bwrdd Rheoli a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth bob chwarter. Rydym yn ystyried, oherwydd diffyg tystiolaeth o feincnodi neu welliant parhaus, bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y Safon hon.

### **Safon 22**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff:*

- a. *yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. *yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant sefydlu a gorfodol; ac*
- c. *yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2 Darperir manylion y polisi, y gweithdrefnau a'r systemau sydd wedi'u sefydlu i gefnogi archwiliadau cyflogaeth priodol ar gyfer staff, ond mae diffyg manylion yn ymateb yr Ymddiriedolaeth am y prosesau sicrhau ehangach. Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio ac yn rhoi tystiolaeth o'i phrosesau Adolygu Datblygu Perfformiad Unigol, ond nid yw'r lefel cyrhaeddiad a'r canlyniadau'n cael eu darparu'n glir ac mae angen mwy o dystiolaeth o adolygu a gwella parhaus. Mae rhywfaint o gofnodi a monitro hyfforddiant Sefydlu a Gorfodol yn digwydd gan ddefnyddio dulliau lleol ar bapur, ond nid yw'r dystiolaeth a ddarperir yn cynnwys rhychwant eang y sefydliad yn ddigon cynhwysfawr.

S22.3 Mae datblygiad y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth, ac enghreifftiau o sut yr ymdrinnir â materion cymhwysedd, yn dangos bod gwelliant yn digwydd mewn rhai meysydd. Roedd yr ymatebion a gawsom gan yr aelodau staff y siaradwyd â hwy yn ystod ein hymweliad safle yn gymysg o ran y systemau sydd wedi'u sefydlu er mwyn iddynt ddiweddarau eu gwybodaeth a chael mynediad at hyfforddiant. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad oes ganddi unrhyw ddulliau monitro a rheoli canolog cynhwysfawr ynglyn â gweithgarwch Cynllun Datblygu Personol (CDP). Disgrifiodd y staff brofiadau cymysg o ran CDP ac ymddengys bod y rhan fwyaf o'r datblygiad a'r hyfforddiant (ar wahân i ddarpariaeth Orfodol) yn cael eu harwain gan y staff, gyda'r rheiny sydd â diddordeb mewn derbyn hyfforddiant yn cael cyfleoedd ac eraill heb gael y cyfleoedd hynny. Nid ydym yn cytuno ag asesiad aeddfedrwydd yr Ymddiriedolaeth ac yn ystyried ei bod yn **Datblygu** ar draws pob un o'r tair lefel.

### **Safon 23**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi gan:*

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar ddarparu gwasanaeth, triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu swydd; a*
- b. rhaglenni datblygu cyfundrefnol a phersonol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2 Mae ystod o bolisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu i gefnogi'r staff pan fyddant yn nodi angen i godi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar ddarparu gwasanaeth, triniaeth neu reolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Twyll.
- Polisi Pryderon Staff.
- Polisi Urddas yn y Gweithle.
- Polisi Disgyblu.
- Polisi Cwyno.

Cyflwynir adroddiad blynyddol ar gysylltiadau â gweithwyr i'r Bwrdd Rheoli a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Rhoddir cefnogaeth i'r staff gan gynnwys gwasanaethau iechyd galwedigaethol a chynghori cyfrinachol. Rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar bob lefel ar gyfer y Safon hon gan na ddarparwyd digon o dystiolaeth o welliant parhaus i gefnogi aeddfedrwydd o Ymarfer.

## **Safon 24**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:*

- a. gael gweithlu sydd â'r cymysgedd priodol o sgiliau ar draws y gymuned; a*
- b. sicrhau bod gwasanaethau'n gwella'n barhaus trwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S24.2 Mae'r Bwrdd, trwy ei huwch swyddogion, yn gysylltiedig â dulliau partneriaeth a datblygu strategol, ar draws Ceredigion ac ar lefel fwy lleol. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn dangos sut y mae wedi gweithio gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol i ddatblygu ymagwedd fwy integredig ar gyfer ei

chymuned. Mae digon o dystiolaeth o weithgarwch a arweinir gan y Bwrdd i ni gytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S24.3 Darparwyd ystod o dystiolaeth i ddangos sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n weithredol gydag Ymddiriedolaethau Aciwt eraill ac asiantaethau partner nad ydynt yn rhan o'r GIG. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd ynglyn â'r cysylltiad gwaith pwysig gyda darparwyr gofal Sylfaenol, yn enwedig meddygon teulu. Mae angen tystiolaeth o weithgarwch gyda gofal sylfaenol, meincnodi a gwelliant parhaus i gyfiawnhau hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth sydd, yn ein barn ni yn **Datblygu** ar hyn o bryd, yn hytrach nag Ymarfer ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S24.4 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi enghreifftiau perthnasol o'r gwaith y mae wedi ei wneud ynglyn ag oedi o ran trosglwyddo gofal a threfniadau rhyddhau, rydym yn ystyried bod canolbwynt yr ymateb yn gul iawn ac yn annigonol i gefnogi aeddfedrwydd o Ymarfer. Rydym, felly, yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd.

## **Safon 25**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.*

S25.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S25.2 Rhoddwyd disgrifiad manwl o'r Strwythurau a'r llinellau Atebolrwydd sydd wedi'u sefydlu, gydag enghreifftiau ategol o ystod eang o bolisiau priodol sy'n darparu tystiolaeth gadarn o safle'r Ymddiriedolaeth o ran Technoleg Gwybodaeth i gefnogi gofal cleifion. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S25.3 Cynhelir hyfforddiant Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn bennaf trwy sesiynau sefydlu, gyda rhai cyfleoedd gloywi sgiliau i ategu hyn. Mae systemau

gwybodaeth corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gael ar bron i bob cyfrifiadur sydd ar y rhwydwaith, ond ni chyflwynwyd llawer o dystiolaeth fod gwybodaeth sy'n cefnogi ac yn gwella gweithgarwch gofal cleifion clinigol ar gael. Mae Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd yr Ymddiriedolaeth yn amlygu'r angen i wella mynediad a hyfforddiant lleol. Rydym yn cytuno ag aeddfedrwydd o **Ddatblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S25.4 Roedd gan y staff y siaradwyd â hwy adolygiadau cymysg ynghylch mynediad corfforol at systemau TG a'r wybodaeth sydd ar gael i gefnogi eu gwaith. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym nad ydynt yw'r systemau ar gael yn hawdd iddynt, os o gwbl, ac na chedwir digon o wybodaeth ac arweiniad clinigol ar y system o reidrwydd i hybu gwell gofal i gleifion. Rydym felly yn ystyried bod aeddfedrwydd yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Rydym yn nodi bod Cynllun Gwella'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael ag agweddau mwy technegol ar gywirdeb data ac rydym yn ystyried y dylai hefyd ymdrin â mater sicrhau bod gwybodaeth glinigol ar gael yn hawdd i glinigwyr pan fyddant yn gweld neu'n trin cleifion.

## **Safon 26**

*Mae gan sefydliadau gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:*

- a. o'r adeg pan fydd cofnod yn cael ei greu nes iddo gael ei ddileu, bod y sefydliad yn cynnal y wybodaeth mewn modd sy'n ateb y diben y'i casglwyd ar ei gyfer, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen bellach; a*
- b. bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei gynnal.*

S26.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2 Mae Strategaeth Rheoli Cofnodion wedi'i sefydlu ac fe'i cefnogir gan ystod o bolisiâu perthnasol. Mae ystod y polisiâu a roddwyd fel dystiolaeth gan yr Ymddiriedolaeth yn gynhwysfawr iawn ac yn cynnig sicrwydd cadarn i'r Bwrdd ynglyn â'r safon hon. Mae'r Strategaeth Rheoli Cofnodion wedi ei hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau o ran canllawiau, arfer da ac argymhellion gan sefydliadau

archwilio. Yn yr un modd ceir gweithgarwch cynhwysfawr o ran hyfforddiant, monitro ac archwilio. Datblygwyd sesiwn hyfforddi i hyrwyddo rheoli cofnodion yn dda. Rydym yn asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gan fod tystiolaeth o ddatblygu parhaus wedi ei darparu.

S26.3 Cynhelir archwiliadau rheolaidd ac mae camau gweithredu lleol wedi'u datblygu i wella cynnal a rheoli cofnodion. Mae gan yr Ymddiriedolaeth nifer o wahanol safleoedd ac yn ystod rhai ymweliadau, nodwyd bod rhywfaint o anghysondeb o ran diogelwch cofnodion clinigol a gallai hwn fod yn gam gweithredu i'w gynnwys mewn cynllunio ar gyfer gwella, ond ar y cyfan rydym yn cytuno bod yr aeddfedrwydd ar lefel Profiad y Defnyddiwr yn **Datblygu**.

### **Safon 27**

*Mae trefniadau rheoli sy'n cynrychioli arfer da wedi'u sefydlu sydd:*

- a. yn defnyddio egwyddorion rheolaeth gorfforaethol a chlinigol gadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl weithwyr i hybu didwylledd, gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risgiau a rheoli risgiau; ac*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S27.2 Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn gynhwysfawr ac mae'n amlwg bod gweithgarwch adolygu a gwella parhaus yn digwydd. Fodd bynnag, rydym yn ystyried bod angen gwaith pellach mewn rhai meysydd, yn enwedig o ran dulliau ar gyfer sicrhau didwylledd, uniondeb ac atebolrwydd. Nid yw integreiddio llywodraethu clinigol a chorfforaethol wedi ei ddatblygu'n dda ac mae angen mwy o gynnydd yn y maes hwn. Ar y cyfan, rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S27.3 Mae systemau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer briffio a chynnwys staff, gyda rhai ohonynt, er enghraifft sesiynau "Gofyn i Allison", wedi eu cyflwyno yn fwy diweddar. Fodd bynnag, nid oedd ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r ffordd y mae'n sicrhau bod rheolwyr yn cefnogi staff i hybu didwylledd, gonestrwydd ac uniondeb, yn gryf iawn ac nid oedd tystiolaeth o fonitro a chydymffurfio ag asesiad risg clinigol yn amlwg. Fodd bynnag, mae'r strwythurau a'r systemau sylfaenol wedi'u sefydlu. Mae'r dystiolaeth o sut y mae'r staff yn gweithio ar draws y gymuned iechyd yn gyfyngedig ac yn ysbeidiol, yn enwedig o ran cysylltiadau â gofal Sylfaenol, ac mae angen gwaith i gryfhau'r agwedd hon. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S27.4 Nid oes llawer o enghreifftiau na thystiolaeth o sut y mae'r staff yn cyfrannu at lywodraethu a rheoli adnoddau ac yn dylanwadu ar hyn. Ni ddisgrifiwyd dulliau ar gyfer cysylltu rheoli adnoddau â darparu gofal i gleifion.

S27.5 Ni chodwyd unrhyw gwynion na phryderon gan y staff yn ystod 2006-2007, sydd yn syndod o ystyried maint y sefydliad a'r systemau a'r prosesau cefnogi y mae'r Ymddiriedolaeth yn dweud sydd wedi'u sefydlu. Yn ein cyfarfodydd gyda'r staff, roedd ymwybyddiaeth o weithdrefnau hysbysu ynghylch risgiau, ond nid oedd llawer o ddealltwriaeth o'r hyn a oedd wedi digwydd o ganlyniad i hysbysu ynghylch risgiau a digwyddiadau, sy'n awgrymu nad yw'r staff yn gysylltiedig â helpu'r sefydliad i ddysgu o faterion o'r fath. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth ynglyn â sut y mae profiad y defnyddiwr wedi gwella o ganlyniad i lywodraethu integredig yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau ac nid yw'n darparu tystiolaeth i gefnogi'r ffaith bod gweithgarwch yn digwydd yn y maes hwn. Rydym felly yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## **Safon 28**

*Mae sefydliadau gofal iechyd:*

- a. *yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion rheolaeth glinigol;*
- b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd clinigol a rheolaethol effeithiol.*

S28.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S28.2 Mae nifer o Strategaethau wedi'u sefydlu a cheir Atebolrwydd clir ar y lefel Gorfforaethol, a darparwyd llawer o dystiolaeth o hyn yn ymateb yr Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd bod gan y sefydliad y potensial i gyflawni llywodraethu clinigol cadarn. Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth y bydd trefniadau hysbysu yn cael eu hadolygu ac y bydd cynllun gweithredu ar gyfer gweithgareddau llywodraethu clinigol yn cael ei ddatblygu. Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio dulliau cynnwys ac ymgysylltu â'r staff, ond ar hyn o bryd nid oes llawer o dystiolaeth i ddangos bod y rhain yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws ystod eang gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth nac mewn ffyrdd a fydd yn gwella gofal cleifion, er enghraifft trwy waith amlddisgyblaethol. Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, roedd dystiolaeth fod gweithgareddau staff wedi'u sefydlu i wella gofal cleifion gan ddefnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol. Rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar hyn o bryd ar bob lefel ar gyfer y Safon hon.

## 4.4 Iechyd y Cyhoedd

### **Safon 29**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd yn amlwg trwy:*

- a. gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. sicrhau bod eu polisiâu a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chynghor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Ymarfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2 Mae'r Prif Weithredwr yn cynrychioli'r Ymddiriedolaeth yn y grwp partneriaeth cynllunio strategol lefel uchel ac roedd tystiolaeth yn amlwg o gyfraniad yr Ymddiriedolaeth at weithredu'r strategaethau sy'n datblygu o'r bartneriaeth hon. Fodd bynnag, ni ddarparwyd digon o dystiolaeth o welliant parhaus i gytuno â hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth, ac felly rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol.

S29.3 Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgrifio ei rhan wrth weithredu cynllun gweithredu strategol y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a sut y bydd yn cael ei roi ar waith trwy Fwrdd Gwasanaethau Lleol arfaethedig Ceredigion. Mae dulliau sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd yn elfen allweddol o ailgynllunio'r gwasanaethau aciwt, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys yn ei gynllun gwella yr angen i ffurfioli cyfranogiad gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd â staff meddygol ymgynghorol ar y lefel weithredol er mwyn gwella gofal cleifion. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn cytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

### **Safon 30**

*Mae sefydliadau gofal iechyd:*

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydau a hybu iechyd, sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, cynlluniau cenedlaethol a blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydau; ac*
- b. *yn ystyried yn llawn y polisiau cyfredol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg ynghyd â gwybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu eu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal clefydau, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn

**Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S30.2 Nid oedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn ddigon cynhwysfawr na manwl i gytuno bod yr Ymddiriedolaeth yn datblygu'n systematig a bod dulliau adolygu yn ddigon cadarn i gyfiawnhau hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth, ac felly rydym yn ystyried bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol.

S30.3 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, mae hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig iawn o ran enghreifftiau a thystiolaeth. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau o ymateb i'r safon trwy'r strategaeth bwydo ar y fron a'r safonau ar gyfer ymwelwyr iechyd yn berthnasol. Yn absenoldeb enghreifftiau mwy cynhwysfawr, rydym yn ystyried bod aeddfedwydd yr Ymddiriedolaeth yn **Ymateb** ar y lefel hon.

S30.4 Disgrifir ystod eang o enghreifftiau yn yr hunanasesiad o wasanaethau a mentrau y dywedir eu bod yn cynnwys cleifion o ran eu cynllunio ac wrth gynnal eu hiechyd eu hunain. Rydym yn cytuno ag aeddfedwydd o **Ddatblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 31**

*Mae sefydliadau gofal iechyd:*

- a. *yn gweithredu cynlluniau i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achos o bwys o glefyd heintus neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau o bwys ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon presennol a newydd a nodwyd i iechyd;*
- ch. *yn annog ac yn cynorthwyo unigolion i gydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain i gynnal eu hiechyd a'u lles.*

S31.1 Gweler yr ymateb i safon 18.

### **Safon 32**

*Mae sefydliadau gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, gan symud i lefel uwch yn dilyn ailasesiad.*

S32.1 Yn ôl ei hunanasesiad, daeth yr Ymddiriedolaeth i'r casgliad ei bod yn **Arwain** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S32.2 Penderfynwyd yng nghyfarfodydd Gwirio Cysondeb AGIC y byddai'r sgôr ar gyfer y safon hon yn uniongyrchol adlewyrchu'r dyfarniadau a dderbynnir gan sefydliadau ar gyfer y Safonau Iechyd Corfforaethol. Byddai Aur ac Arian yn gyfwerth ag Ymarfer, a byddai Efydd yn gyfwerth â Datblygu. Oherwydd bod gan yr Ymddiriedolaeth ddyfarniad Efydd y Safon Iechyd Gorfforaethol ar hyn o bryd, rydym yn asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Mae crynodeb o'r lefelau aeddfedwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon fel y'u haseswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru trwy ei hunanasesiad a chan AGIC yn dilyn profi a gwerthuso, i'w weld yn Atodiad 2.



## **5. Y Camau Nesaf**

5.1. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ar y cynllun hwn, a bydd yn monitro ei weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

5.2. Yn ystod y misoedd i ddod bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r offeryn asesu ar gyfer y dyfodol ac yn alinio proses hunanasesu'r Safonau Gofal Iechyd â'r cylch ariannol blyneddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd yn cynnwys y canlyniadau o adroddiadau unigol mewn trosolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at themâu allweddol a meysydd risg a ddaeth i'r amlwg yn ystod proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd.



## Atodiad 1

	<b>Ymwybodol</b>	<b>Ymateb</b>	<b>Datblygu</b>	<b>Ymarfer</b>	<b>Arwain</b>
<b>Corfforaethol</b>	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond ni all ddangos penderfyniadau/camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau a flaenoriaethwyd, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arfer arloesol sy'n cael ei rannu ar draws y sefydliad a'r tu hwnt iddo, gan alluogi gwireddu cynaliadwyedd hirdymor.
<b>Gweithredol</b>	Mae ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond nid oes unrhyw dulliau wedi'u datblygu i fynd i'r afael â hwy.	Ceir cydnabyddiaeth o'r materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt ac mae ystod o ddewisiadau wedi'u nodi i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o ddefnydd ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad sy'n mynd i'r afael â materion allweddol, a cheir tystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arfer arloesol, sy'n cael ei rannu ar draws y sefydliad a'r tu hwnt iddo. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach er mwyn sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
<b>Profiad y Defnyddiwr</b>	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn wael ar y cyfan ac nid oes dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y sefydliad hyd yma.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn dda ar y cyfan ar draws yr holl feysydd.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn wych ar y cyfan a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth glir o arfer da, y gellir ei rannu.

## Atodiad 2

### Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y 32 Safon

#### ALLWEDD

L	Arwain
P	Ymarfer
D	Datblygu
R	Ymateb
A	Ymwybodol

#### Safon 1

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

#### Safon 2

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

#### Safon 3

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

#### Safon 4

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 5

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	R	↔	R

### Safon 6

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 7

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 8

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 9

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

### Safon 10

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	R	↔	R

### Safon 11

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 12

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 13

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

### Safon 14

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 15

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	R

### Safon 16

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 17

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

### Safon 18

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 19

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 20

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 21

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 22

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

### Safon 23

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 24

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

### Safon 25

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 26

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 27

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

### Safon 28

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 29

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 30

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D



### Safon 31

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Amherthnasol		
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Amherthnasol		
Profiad y Defnyddiwr	Amherthnasol		


### Safon 32

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	L	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D


**Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol,  
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr**




### Sgorau Aeddfedrwydd y Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol



### Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



### Cytuno/Anghytuno â Sgôr yr Ymddiriedolaeth



# Rhestr Termau Allweddol

**Grwp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan** – yn cynghori'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau strategol.

**cerdyn sgorio cytbwys** - system reoli sy'n darparu model y gall sefydliadau ei ddefnyddio i egluro eu gweledigaeth a'u strategaeth a throsi hyn yn weithredu. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus o ran perfformiad cyfundrefnol.

**Gwarcheidwad Caldicott** - uwch glinigwr ym mhob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu diogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

**llwybr gofal** - set ddiffiniedig o gamau triniaeth a gofal a luniwyd i fodloni anghenion penodol pob claf.

**archwilio clinigol** – dull gwerthuso a mesur ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd er mwyn iddynt weld i ba raddau y maent yn bodloni'r safonau sydd wedi'u gosod ar gyfer eu gwasanaeth.

**rheolaeth glinigol** – fframwaith a ddefnyddir i sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau a chynnal safonau uchel o ran gofal yn barhaus.

**rhwydweithiau clinigol** – grwp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn darparu gwell gofal i gleifion.

**canlyniad clinigol** – effaith triniaeth ar iechyd a lles unigolyn.

**Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)** - sefydliadau dielw, cymunedol sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth iechyd a pholisïau iechyd. Sefydlwyd Cyngorau Iechyd Cymuned ym 1992 er mwyn cryfhau cyfranogiad y gymuned wrth ddiffinio polisïau gwladol a lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd ac ansawdd gofal iechyd. Mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli lles y cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i fod yn rhan o ymgynghoriadau ar newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT)** – asiantaeth weithredol a sefydlwyd er mwyn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r SCT yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â phlant neu bobl eraill sy'n agored i niwed mewn cymdeithas.

**diogelu data** – gofyniad ar sefydliadau cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Ymdrinnir â chyfrifoldebau o'r fath gan

Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a luniwyd i ddiogelu data sy'n cael ei gadw ynghylch unigolion.

**Cynllun Oes** - mae'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae ganddo strategaeth ddeng mlynedd er mwyn gwireddu hynny. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, gyda phob un yn para tua thair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgyllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflawni Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o Safon Fyd-eang.

**Safonau Gofal** – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

**rheoli heintiau** – set o weithdrefnau ar gyfer atal lledaenu heintiau, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer dihaint, ayyb.

**Byrddau Iechyd Lleol (BILI)** - sefydliadau statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

**Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)** - sefydliadau hunanlywodraethu o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ymddiriedolaethau yn cyflogi ystod lawn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ayyb. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol mewn ysbytai fel arfer. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e. nyrsys ardal, trinwyr traed, ayyb. Mae ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaeth gymunedol ac aciwt o dan un broses reoli.

**Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE)** – awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau ar gyfer y GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

**Yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA)** - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 er mwyn cydlynu ymdrechion y wlad gyfan i adrodd ac, yn bwysicach oll, i ddysgu o gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

**Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS)** – mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n ceisio: gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; diogelu yn erbyn clefydau a bygythiadau iechyd cyfredol, newydd ac sy'n dod i'r amlwg ac; yn cyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC)** - canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydau a salwch.

**Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC)** – strategaeth a luniwyd i sicrhau bod barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael ei hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys** – rhaglen sy'n rhoi amser wedi'i neilltuo i nyrsys er mwyn caniatáu iddynt arsylwi gofal a darparu gwasanaethau, a chyfweld â chleifion ynghylch darparu gofal. Fe'i lluniwyd i alluogi nyrsys i ddatblygu a gwella eu sgiliau arwain, gwella eu sgiliau tîm a threfnu, a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

**Datganiadau o Reolaeth Fewnol** - datganiad ar drefniadau cyffredinol sefydliadau'r GIG ar gyfer ceisio sicrwydd bod y prif risgiau o fewn y sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

**Bwrdd yr Ymddiriedolaeth** – grwp o bobl sy'n gyfrifol drwy statud am benderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel arfer mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

**Cronfa Risg Cymru** – cynllun hunansicrwydd ar y cyd ar gyfer yr holl sefydliadau iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad da o ran rheoli risgiau ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau penodol.